# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 13 Chwefror 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Materion Trawsbynciol

**C9 Dafydd Wigley:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr am y camau ymlaen a gymerwyd o safbwynt polisi ar faterion trawsbynciol? (OAQ9550) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy bellach i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 27 Chwefror.

Byddwn yn cynnal y ddadl a ohiriwyd ar amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus ddydd Iau 15 Chwefror.

Bydd yr ail ymarfer ymgynghori ar y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn parhau hyd 16 Mawrth 2001. Mae uned adfywio cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol newydd wedi'i sefydlu bellach i roi'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar waith a bwrw ymlaen â chamau i ymladd anfantais gymdeithasol.

### Trafod Polisïau â'r Cyngor Partneriaeth Busnes

**C10 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am bolisïau sydd yn ymwneud â Chymru y bydd yn eu trafod gyda'r Cyngor Partneriaeth Busnes? (OAQ9555) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru:** Y pynciau sydd i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Partneriaeth Busnes ar 15 Chwefror yw polisi trafnidiaeth, 'Polisi Cynllunio Cymru', adolygiad o gymorth busnes a gwasanaethau datblygu a'r strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol. Gellir cael copïau o'r papurau hyn ac agenda lawn ar wefan y Cynulliad.

*Atebwyd cwestiwn 11 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Trafodaethau ar E-fasnach

**C12 Geraint Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am y trafodaethau yn y Cyngor Partneriaeth Busnes ar e-fasnach? (OAQ9569)

**Prif Weinidog Cymru:** Rôl y Cyngor Partneriaeth Busnes yw cyfnewid barn ar faterion busnes pwysig a strategol o ddiddordeb cyffredin yn hytrach nag ar raglenni penodol. Trafodwyd y strategaeth e-fasnach yn y cyfarfod partneriaeth ar 30 Mehefin 2000, pan gyflwynwyd cynigion i hyrwyddo'r defnydd ohoni gan Ffederasiwn y Busnesau Bach.

Trafodwyd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn fanwl hefyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ystod ei adolygiad o gymorth busnes.

### Cyngor Prydain ac Iwerddon

**C13 David Lloyd:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am drafodaethau rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Prydain ac Iwerddon? (OAQ9558)

**Prif Weinidog Cymru:** Testun gofid yw na ddigwyddodd y cyfarfod o Gyngor Prydain ac Iwerddon a ailamserlennwyd ar gyfer 5 Chwefror, ond yr oedd y rhesymau a oedd yn ymwneud â phroses heddwch Gogledd Iwerddon yn ddigon grymus fel bod Llywodraethau Prydain ac Iwerddon wedi gwneud penderfyniad ar y cyd i gyfeirio'r cyfarfod. Gwelwyd Cyngor Prydain ac Iwerddon erioed yn rhan o broses heddwch Gogledd Iwerddon.

### Datblygu Busnesau Bach a Chanolig eu Maint

**C14 Brian Hancock:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar drafodaethau gyda'r Cyngor Partneriaeth Busnes ynghylch datblygu busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru? (OAQ9553)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r adolygiad cymorth busnes a'r strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol yn eitemau i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Partneriaeth Busnes ar 15 Chwefror. Gellir cael manylion y trafodaethau blaenorol a gynhaliwyd gan y Cyngor ar wefan y Cynulliad.

### Rôl Cynghorwyr Arbennig

**C15 Glyn Davies:** Beth yw rôl cynghorwyr arbennig y glymblaid rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur? (OAQ9568)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae cynghorwyr arbennig yn cyflawni amrediad o ddyletswyddau i Weinidogion. Yn eu plith y mae adolygu papurau polisi wrth iddynt fynd at aelodau'r Cabinet, yn cynnwys tynnu sylw at oblygiadau gwleidyddol a sicrhau ymdriniaeth briodol â'r pwyntiau mwy gwleidyddol.

Maent hefyd yn gyfrifol am baratoi papurau polisi a hefyd am baratoi areithiau, gan ychwanegu'r cyd-destun pleidiol gwleidyddol.

Mae cynghorwyr arbennig yn cysylltu hefyd a swyddogion plaid ac yn helpu i roi cyfarwyddyd i Aelodau Cynulliad y blaid lle y bo'n briodol.

### Datblygu Polisi

**C16 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr am y camau ymlaen a gymerwyd o safbwynt datblygu polisi yng Nghymru? (OAQ9556)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyflawni agenda bolisi wahanol. Cydnabyddir yn fwyfwy eang, y tu mewn a'r tu allan i Gymru, fod ein gwaith ar iechyd, gofal, datblygu economaidd a pholisi cymdeithasol yn torri tir newydd, ac mae'n seiliedig ar ein hymrwymiad i ddatblygu polisi'n agored ac mewn partneriaeth.

### Datblygu Polisïau ar Faterion sydd Heb eu Datganoli

**C17 Helen Mary Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr am ei drafodaethau diweddar ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch datblygu polisïau ar faterion sydd yn ymwneud â Chymru nad ydynt wedi eu datganoli? (OAQ9552)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod materion sydd yn ymwneud â materion a ddatganolwyd a gwariant a pholisïau Llywodraeth y DU nas datganolwyd o ran eu heffaith ar Gymru.

### Hyrwyddo Cymru yn Rhyngwladol

**C18 William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am y camau diweddar y mae wedi'u cymryd i hyrwyddo Cymru ar y lefel ryngwladol? (OAQ9577)

**Prif Weinidog Cymru:** Fel y rhoddais ar ddeall wrth ymateb i nifer o gwestiynau tebyg yn ddiweddar, mae hybu proffil Cymru yn flaenoriaeth allweddol i'r Cabinet. Mae'r Cynulliad yn gweithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill i ddatblygu dull gweithredu cydlynol ar lefel Cymru gyfan i wella ein proffil rhyngwladol. Yr ydym yn datblygu pecyn o ddeunydd hyrwyddo, yn cynnwys CD-ROM a gwefan, ac yn dynodi digwyddiadau tramor lle y gellir hyrwyddo Cymru. Bydd swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel, nifer cynyddol o ymweliadau â Chymru gan wleidyddion a swyddogion tramor amlwg, ein rhaglen teithiau masnach, a'r cyfleoedd a gynigir drwy ein cyfranogiad cynyddol mewn materion rhyngwladol yn hybu proffil Cymru ymhellach ar y llwyfan rhyngwladol.

Byddaf yn cyfarfod â Llysgennad Unol Daleithiau America ar 14 Chwefror yng Nghaerdydd ac An Taoiseach, Bertie Ahern yn ystod ei ymweliad â'r Cynulliad ar 1 Mawrth. Bydd yr ymweliadau hyn o gymorth i hyrwyddo Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn UDA ac yn Iwerddon.

### Goblygiadau'r Ewro i Gymru

**C19 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cynnal â'i gyd Weinidogion yn San Steffan am oblygiadau posibl yr ewro i Gymru pan fydd yn llawn weithredol yn 2002? (OAQ9575) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Polisïau Materion Gwledig

**C20 Pauline Jarman:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ynghylch sut y mae ei rôl fel cydlynydd datblygu polisi yn effeithio ar bolisïau materion gwledig? (OAQ9557)

**Prif Weinidog Cymru:** Ymddiddoraf yn fanwl yn holl waith y Cynulliad, gan gynnwys materion gwledig. Mae'r gwaith a wnaethom, a oedd yn canolbwyntio ar y cynllun datblygu gwledig a chronfeydd strwythurol eraill yr Undeb Ewropeaidd a dyfodol ffermio, yn golygu ein bod ymhell ar y blaen o ran datblygu ein strategaeth wledig.

Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi cynnull cyfarfod o'r bartneriaeth wledig, a fydd yn digwydd yfory, a bydd yn cyflwyno cynigion i'r bartneriaeth ynghylch y modd i ddatblygu polisi ar gyfer y Gymru wledig ymhellach.

### Swyddfa Cofnodion Troseddol

**C21 Mick Bates:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref ynghylch rhedeg y Swyddfa Cofnodion Troseddol yng Nghymru? (OAQ9571)

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu trafodaethau. Fodd bynnag, ysgrifennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Cartref ar 11 Ionawr gan fynegi pryderon ynghylch y problemau y gallai'r taliadau arfaethedig am chwiliadau cofnodion troseddol eu hachosi i'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

### 'Variable Geometry UK'

**C22 Janet Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr yn dilyn ei araith 'Variable Geometry UK' a draddodwyd gerbron y Sefydliad Materion Cymreig ar 2 Chwefror 2000? (OAQ9549)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid oeddwn yn Brif Ysgrifennydd ar 2 Chwefror 2000, ac ni thraddodais araith o'r fath ar y dyddiad hwnnw.

**Darpariaeth ar gyfer Cymru mewn Mesurau gerbron y Senedd**

**C23 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cynnal ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch darpariaeth ar gyfer Cymru mewn Mesurau sydd yn cael eu rhoi gerbron y Senedd? (OAQ9547)

**Prif Weinidog Cymru:** Caf drafodaethau rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch darpariaeth ar gyfer Cymru yn y pum Mesur sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.

**Effaith Polisïau'r UE ar Ffyniant Pobl Cymru**

**C24 David Davies:** A oes unrhyw asesiad wedi'i wneud o effeithiau polisïau'r Undeb Ewropeaidd ar ffyniant pobl Cymru? (OAQ9548)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae polisïau'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru mewn llawer modd a gellir ystyried eu heffeithiau orau yng nghyd-destun meysydd polisi unigol yn hytrach na'u hystyried yn gyffredinol.

**Cynnal Digwyddiadau Cenedlaethol a Rhyngwladol o Bwys**

**C25 Ann Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am y cyfleoedd a fydd ar gael i Gymru gynnal digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol o bwys yn ystod y tair blynedd nesaf? (OAQ9566)

**Prif Weinidog Cymru:** Ymhyfrydaf yn ein llwyddiant diweddar wrth sicrhau sawl digwyddiad amlwg yng Nghymru a byddaf yn parhau i annog a chefnogi ceisiadau am ddigwyddiadau o'r fath. Bydd cynnal digwyddiadau o'r fath yn gymorth mawr i hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol ac mae'r Cynulliad yn gweithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill i fwyhau'r cyfleoedd.

**Codi Proffil Cymru o fewn y DU**

**C26 Nick Bourne:** Beth mae Prif Weinidog Cymru yn ei wneud i godi proffil Cymru o fewn y Deyrnas Unedig? (OAQ9560)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Llywodraeth y Cynulliad, gan weithio gyda chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fel Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, yn gwneud llawer iawn i hyrwyddo Cymru oddi mewn i'r Deyrnas Unedig fel lle rhagorol i fasnachu, i fyw, ac i ymweld ag ef.

Trosglwyddo gemau pêl-droed amlwg allweddol o Wembley i Stadiwm y Mileniwm am y tair neu bedair blynedd nesaf yw'r enghraifft ddiweddaraf o'r fath sydd yn dangos manteision Cymru fel lleoliad twristiaeth a buddsoddi.

**Gosod Targedau yn Adrannau'r Cynulliad**

**C27 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch sut y mae'r Cynulliad yn gosod targedau yn ei amryfal adrannau? (OAQ9570)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae 'Gwellcymru.com' yn nodi'r targedau strategol ar gyfer y gwaith yn ei gyfanrwydd. Wedyn gosodir nodau blynyddol ar gyfer pob maes gwaith yn y cynllun gweithredol. Diweddarir 'Gwellcymru.com' i adlewyrchu'r ymrwymiadau yn y cytundeb partneriaeth ac ymgynghorir ar y targedau newydd arfaethedig.

**Cynlluniau Ynni Adnewyddol**

**C28 Cynog Dafis:** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn sicrhau cydbwysedd rhwng cynlluniau ynni

adnewyddol ar y naill law ac anghenion o ran datblygu economaidd ac anghenion cymdeithasol ar y llall? (OAQ9565)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae ‘Rhoi Cymru’n Gyntaf: Cytundeb Partneriaeth i Bobl Cymru’ yn disgrifio’r modd y byddwn yn gweithio’n effeithiol gyda’n gilydd i gyflawni polisïau i Gymru. Un o egwyddorion craidd y cytundeb yw ein bod wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod twf economaidd yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol gynaliadwy a bydd hyn yn fater allweddol yn ein polisi i ddatblygu’r sector adnewyddol yng Nghymru.

Defnyddir casgliadau ein hastudiaeth o’r posibiliadau ar gyfer ynni adnewyddol yng Nghymru, ynghyd ag egwyddorion ‘Rhoi Cymru’n Gyntaf’, i oleuo datblygiad fframwaith ynni strategol ehangach i Gymru.

Yr ydym hefyd yn ymgymryd ag adolygiad manwl o Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddol, a fydd yn ystyried y goblygiadau cynllunio sydd yn gysylltiedig â datblygu pob ffynhonnell ynni adnewyddol yng Nghymru. Mae’n fwriad i’r cyfarwyddyd sefydlu dull effeithiol o hwyluso datblygu ynni adnewyddol gan barchu ansawdd yr amgylchedd lleol. Sefydlwyd grŵp ymgynghorol technegol i fwrw ymlaen yn gynhwysol â’r adolygiad o’r Nodyn Cyngor Technegol, a bydd yn cynnwys amryw o’r rhai sydd â buddiant mewn polisi cynllunio ar gyfer ynni adnewyddol.

### Ehangu’r UE

**C29 Val Feld:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am hyd a lled polisi’r Cynulliad ar ehangu’r Undeb Ewropeaidd? (OAQ9573) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Y Glymblaid rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur

**C30 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ynghylch a yw’r glymblaid rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur wedi sicrhau sefydlogrwydd, gweledigaeth, a Chynulliad sydd yn rhoi Cymru’n gyntaf? (OAQ9657)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae’r Llywodraeth bartneriaeth wedi llwyddo i ddarparu rhaglen bolisi gydlynol i’r Cynulliad Cenedlaethol, sydd â’r gallu i ddod â llywodraeth sefydlog a chyfiawnder cymdeithasol i bobl Cymru.

Mae’r rhaglen hon, a ddisgrifiwyd yn ‘Rhoi Cymru’n Gyntaf’, yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth bartneriaeth i gyflawni ei haddewidion, drwy gyflwyno setliad cyllidebol tair blynedd cynhwysfawr, rhaglen ddeddfwriaethol fanwl a phenodol Gymreig a chamau gweithredol cyfeiriedig i ymdrin ag anghenion y cymunedau tlotaf a mwyaf difreintiedig yng Nghymru.